O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2017 Rhif 816 (Cy. 193)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Eglwyswrw, Crymych, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 30 mya a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Gorffennaf 2017* |
| *Yn dod i rym* | *20 Gorffennaf 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ("Deddf 1984") ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Gorffennaf 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Eglwyswrw, Crymych, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 30 mya a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2017.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf 1984(2);

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

ystyr ‘‘y gefnffordd’ (‘*the trunk road*’’) yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor yn Eglwyswrw, Crymych, Sir Benfro;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd y cyfyngiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei ddangos.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Gorffennaf 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 30 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 167 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4332 hyd at bwynt 274 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

## ATODLEN 2

**Terfyn Cyflymder 20 MYA Rhan-amser**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 158 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4332 hyd at bwynt 143 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.